# YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF

GLANTAF

coron gwlad ei mamiaith

# Prospectws 2015-16

# Gair o Groeso

Annwyl Rieni/Warcheidwaid

Braf iawn yw cael y cyfle i'ch croesawu i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf drwy dudalennau Prosbectws yr ysgol. Byddwch wedi cefnogi addysg Gymraeg ers i chi benderfynu danfon eich plentyn i'r ysgol feithrin Gymraeg, ac felly rydych yn hen gyfarwydd ag ethos Gymreig, gynnes a chyfeillgar ysgolion Cymraeg.

Awyrgylch felly hefyd sydd yng Nglantaf, ysgol sydd yn nodedig am ei gofal a'i chonsyrn am ddatblygiad y disgybl unigol, yn emosiynol, yn bersonol, yn gorfforol ac yn academaidd. Rydym yn falch dros ben fod ein gwaith mentora disgyblion arloesol wedi derbyn gwobr genedlaethol ac rydym yr un mor falch fod ein gofal am ein staff wedi ennill a chynnal statws Buddsoddwyr mewn Pobl.

Pobl sydd yn gwneud ysgol, ac rwy'n ymhyfrydu wrth ddweud mai safon yr athrawon yw un o brif gryfderau Glantaf. Rwy'n ymfalchïo y bydd eich mab neu'ch merch yn derbyn profiadau cyfoethog ac addysg eang a chytbwys o safon uchel yn yr ysgol hon.

Ysgol agored a chroesawgar yw Glantaf, a byddwn yn falch o'ch gweld yma bob amser. Os ydych am drafod unrhyw agwedd ar gynnydd neu ddatblygiad eich mab neu eich merch, ar adegau ar wahân i'r nosweithiau rhieni penodedig, yna ffoniwch swyddfa'r ysgol er mwyn trefnu cwrdd â'r Pennaeth Blwyddyn. Y Pennaeth Blwyddyn yw'r ddolen gyswllt rhyngoch chi a'r ysgol ar faterion pwysig. Bydd yr athro dosbarth yn gysylltiad dyddiol o ran trefniadau arferol ysgol, megis cylchlythyron, nodiadau absenoldeb neu'r Llyfr Cyswllt.

Mae'r disgyblion, y staff, y rhieni a'r Corff Llywodraethu yn ymfalchïo yn llwyddiant Glantaf: fe wyddoch am gampau'r disgyblion ar y caeau chwarae, hwyrach eich bod eisoes wedi mwynhau ein sioeau cerdd neu ein Gwasanaeth Nadolig ac yn gyfarwydd a'n llwyddiannau lu ar lwyfan Eisteddfodau'r Urdd. Gobeithiwn eich bod, hefyd, yn gyfarwydd â'n safonau academaidd uchel a'n bwriad i gynorthwyo pob disgybl i wireddu ei botensial tra dan ein gofal

Diolch i chi felly am ystyried danfon eich plentyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ac am gefnogi iaith a diwylliant Cymru drwy ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Yn gywir

Alun Davies

Y Pennaeth

## MANYLION CYSWLLT

**YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**
**Heol y Bont**
**Ystym Taf**
**Caerdydd**
**CF 14 2JL**
☎ 029 20333090
🖷 029 20333091
hysbys@glantaf.cardiff.sch.uk
Www.glantaf.cardiff.sch.uk

**Y Pennaeth:**
**Mr Alun Davies**

**Dirprwy Bennaeth:**
**Dr Rhodri Thomas**

**Penaethiaid Cynorthwyol:**
**Mrs Janet Burnhill**
**Mr Iwan Lloyd**
**Mrs Sian Thomas**
**Miss Meleri Wyn Jones**
**Mr Dyfrig Rees**

**Pennaeth Blwyddyn 7 / Trosglwyddo**
**Mr Andrew Walpole**

**Cydlynydd Anghenion Arbennig**
**Mrs Helen Sharkey**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Dr Hefin Jones**

# DATGANIAD O WELEDIGAETH AC AMCANION

**Datganiad o Weledigaeth**

**Darparu addysg gyflawn, cyfleoedd cyfartal a phrofiadau cyfoethog yn yr iaith Gymraeg, mewn awyrgylch Gymreig a chynhaliol**

***Amcanion***

- Meithrin personoliaeth lawn yr unigolyn drwy gynnig profiadau a chyfleoedd a fydd yn hyrwyddo datblygiad meddyliol, corfforol ac ysbrydol tra'n ehangu gorwelion
- Cynorthwyo disgyblion i feithrin agweddau, dysgu medrau, canfod gwybodaeth a dyfnhau dealltwriaeth. Byddant yn berthnasol i'w bywyd ar ôl gadael yr ysgol , yn eu gwaith, y cartref ac yn eu hamdden mewn byd tra chyfnewidiol
- Ennyn balchder pob disgybl yn ei wreiddiau, parch at iaith ei wlad a theyrngarwch at y gymdeithas y mae'n perthyn iddi gan feithrin dinasyddion da ar gyfer Cymru a'r byd
- Rhoi cyfle i chwilfrydedd cynhenid y plentyn ddatblygu meddwl effro, ymholgar a'r gallu i ddadlau'n rhesymegol, i gloriannu ac i benderfynu drosto ei hun
- Gofalu bod pob disgybl yn meithrin y ddawn o gyfathrebu'n effeithiol , yn bennaf yn y Gymraeg, drwy ymwneud ag ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol
- Annog y disgybl i ymroi'n frwdfrydig hyd eithaf ei allu mewn ffordd gyfrifol a hunan-ddisgybledig
- Hybu parch at eraill, at werthoedd crefyddol, ysbrydol, moesol a diwylliannol a meithrin goddefgarwch tuag at gredoau ac agweddau gwahanol.
- Helpu'r disgybl i werthfawrogi campau a dyheadau dyn ar hyd yr oesoedd
- Paratoi'r disgybl i wasanaethu ac i gyfrannu'n adeiladol at gymdeithas yn ôl ei allu
- Addysgu'r disgyblion a datblygu medrau'r staff mewn ysgol agored, gynnes, sydd yn estyn gofal i bob unigolyn ac yn meithrin perthynas adeiladol â'r holl bartneriaid yn eu haddysg

# Manylion yr Ysgol

## CEFNDIR

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol gyfun gymysg i ddisgyblion 11-18. Agorwyd yr ysgol yn 1978. Ym mis Medi 1986 trefnwyd yr ysgol ar ddau safle ac yna ers 1998 trefnwyd ar un safle unwaith eto yn dilyn agor Ysgol Plasmawr ar safle ysgol isaf Glantaf. Ers 1998 mae Glantaf wedi darparu addysg ar gyfer disgyblion o un ar ddeg i ddeunaw oed o ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas i'r dwyrain o afon Taf. Ers Medi 2012 mae disgyblion newydd o ardaloedd mwyaf Dwyreiniol y ddinas wedi mynychu'r drydedd ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd sef Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, ac ers Medi 2013 mae disgyblion o Ysgol Gynradd Pwll Coch hefyd yn mynychu Glantaf.

## CYFLEUSTERAU CHWARAEON

Mae cyfleusterau chwaraeon yr ysgol yn ardderchog gyda meysydd chwarae eang mewn lleoliad hyfryd ar lannau Afon Taf.Yn ogystal mae ganddi:

- Canolfan Chwaraeon
- Cae Chwarae Bob Tywydd
- 2 Gampfa
- Adnoddau ffitrwydd o'r safon uchaf

## CYFLEUSTERAU ERAILL

- Neuadd Fawr
- Canolfan Adnoddau
- 12 Labordy Gwyddoniaeth
- Canolfan Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithdai Technoleg
- Uned Addysg Arbennig
- Canolfan Celfyddydau Perfformio a Stiwdio Recordio

## MANYLION STATUDOL

MATH YR YSGOL:
Ysgol Gyfun Gymysg
CYNHELIR GAN:
Cyngor Sir Caerdydd
YSTOD OEDRAN: 11-18
CATEGORI IAITH: CC
(Cyfrwng Cymraeg)
NIFER YN YR YSGOL: 1160
NIFER MYNEDIAD: 240

# Polisi Derbyn

**<u>Mae ein polisi derbyn yn  cyd-redeg â pholisi'r Sir.</u>**

- Derbyniwn ein disgyblion o nifer o ysgolion cynradd Cymraeg yr Awdurdod, gyda manylion ar gael o'r ysgol neu caerdydd.gov.uk. Mae'r mwyafrif o'r rhain i'r Dwyrain a'r De o'r Afon Taf.
- Mae Ysgol Glantaf yn derbyn disgyblion 11 oed sy'n abl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.  Pwysleisir wrth rieni a disgyblion mai Ysgol Gymraeg yw Ysgol Glantaf.
- Mae Ysgol Gymraeg Glantaf yn diogelu'r egwyddor o addysg gyfun drwy dderbyn disgyblion ar draws yr holl ystod gallu, heb wahaniaethu rhwng disgyblion ar sail rhyw, hil, lliw, credo nac anabledd, cyhyd â'u bod yn abl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae Ysgol Gymraeg Glantaf yn derbyn disgyblion ag anghenion addysgiadol dwys i'r Uned Arbennig.
- Derbynnir ychydig o ddisgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol mewn amgylchiadau arbennig ac â chaniatâd yr Awdurdod Addysg.
- Derbynnir y disgyblion hyn sy'n symud i fyw i ddalgylch yr ysgol os ydynt yn abl i dderbyn addysg gyfrwng Cymraeg.
- Ceisiadau dan oed.  Derbynnir ceisiadau gan rieni sydd â phlant o dan yr oed trosglwyddo (blwyddyn yn iau) mewn amgylchiadau arbennig ar ôl ystyriaeth fanwl o'r goblygiadau, adroddiad gan y seicolegydd addysgiadol a chaniatâd yr Awdurdod Addysg.
- Dylid gwneud cais am le yn yr ysgol drwy'r Prif Swyddog Ysgolion, Awdurdod Addysg Caerdydd, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Mae modd gwneud hwn ar-lein ar wefan <u>www.caerdydd.gov.uk</u>
- Rhif Mynediad Safonol yr ysgol yw 240.
- Darparwn gyfle i rieni ymweld â'r ysgol yn ystod noson blwyddyn 6. Os nad yw rhiant yn medru ymweld yn ystod y noson hon gellid cysylltu gyda phennaeth blwyddyn 7 i wneud trefniadau unigol.

**Disgyblion sydd yn derbyn gofal:** Rydym yn dilyn trefniadau'r Sir wrth dderbyn disgyblion sydd yn derbyn gofal. Mae ein pennaeth cynorthwyol, Mrs Janet Burnhill yn gyfrifol am gefnogi lles a llwyddiant disgyblion sydd yn derbyn gofal. Bydd hi'n cydweithio'n ofalus gyda'r pennaeth blwyddyn i sicrhau darpariaeth addas i bob disgybl. Gallwch dderbyn manylion am ein trefniadau i gefnogi disgyblion sydd yn derbyn gofal oddi wrthi.

# ETHOS A GWERTHOEDD YR YSGOL

**Iaith yr Ysgol**

Cynhwysir polisi iaith yr ysgol yn ei theitl swyddogol sef "Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf", ac yn ei harwyddair "Coron Gwlad ei Mamiaith". Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, a hi yw'r iaith a ddefnyddir yn y gweithgareddau allgyrsiol, yn y gwaith bugeiliol ac yng ngwaith gweinyddol y sefydliad. Disgwylir i'r disgyblion siarad Cymraeg ar bob achlysur.

Dysgir yr holl bynciau heblaw'r Saesneg trwy gyfrwn y Gymraeg.

Ein nod yw datblygu hyfedredd a hyder y disgyblion i ddefnyddio'r iaith drwy ystyried y gwaith o hybu'r Gymraeg yn waith i'r ysgol gyfan. Ceisiwn sicrhau nid yn unig bod y disgyblion yn gyfan gwbl ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol, ond hefyd eu bod yn ymwybodol o'u Cymreictod ac yn ymfalchïo ynddo. Darparwn gyfleoedd i gyfoethogi defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu. Anelwn at ennyn brwdfrydedd cynyddol ymhlith y disgyblion drwy eu galluogi i weld perthnasedd yr iaith Gymraeg i fywyd beunyddiol yr ysgol a'r gymdeithas.

Anogir disgyblion i ddarllen llyfrau, cylchgronau ac ati yn yr iaith, gwylio S4C, gwrando ar Radio Cymru a mynychu sefydliadau sy'n defnyddio'r Gymraeg megis Aelwyd yr Urdd, capeli ac eglwysi, theatrau ac yn y blaen.

**Rôl y Rhieni**

Gofynnir i'r rhieni ysgogi eu plant i fyw bywyd Cymraeg a Chymreig ar bob cyfle a thrwy hynny gryfhau eu hymwybyddiaeth o berthnasedd a gwerth yr iaith sydd yn cael ei dysgu i'w plant, a chryfhau eu hymrwymiad iddi.

Gofynnir i rieni neu warcheidwaid arwyddo'r cytundeb ysgol-cartref a welir y tu mewn i glawr blaen y *Llyfr Cyswllt*:

***Ysgol Gymraeg ei chyfrwng a Chymreig ei hethos yw Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Mae'n bwysig bod disgyblion a rhieni yn sylweddoli hyn. Felly, hoffem pe bai'r disgyblion a'r rhieni yn trafod hyn ac yn ymrwymo i gefnogi polisi iaith yr ysgol.***

Gwerthfawrogir y cyfraniad ymarferol amhrisiadwy a wneir gan **Gyfeillion Glantaf** (Cymdeithas Rieni ac Athrawon) sy'n weithgar a diwyd. Cynhelir achlysuron cymdeithasol yn rheolaidd a chodwyd symiau sylweddol iawn o arian drwy eu gweithgareddau yn y gorffennol. Eu hymdrechion a'n galluogodd i ychwanegu at ystod profiadau disgyblion Glantaf drwy brynu adnoddau ychwanegol fel bws mini a chyfrifiaduron, a'n helpu i wella amgylchfyd yr ysgol.

**DISGWYLIADAU**

**GLANTAF**

- CYMREICTOD
- CWRTEISI
- PARCH.

# Bugeilio

Erys y disgyblion fel arfer yn eu dosbarthiadau cofrestru gwreiddiol drwy gydol blynyddoedd 7 - 11. Bydd yr Athro Dosbarth yn gwneud pob ymdrech i ddod i adnabod pob unigolyn yn ei ddosbarth yn dda. Bydd bob amser yn barod i wrando a chynnig cyngor ynglyn â gwaith ysgol neu broblemau personol. Gwneir pob ymdrech i ofalu am les a hapusrwydd yr unigolyn. Atgyfnerthir gwaith a gofal yr Athro Dosbarth gan y Penaethiaid Blwyddyn sydd yn gyfrifol am y gwahanol flynyddoedd.

Gofynnir i rieni gysylltu â'r Pennaeth Blwyddyn os teimlant y dylai'r ysgol wybod am unrhyw broblem sy'n debygol o effeithio ar ddatblygiad academaidd, personol neu gymdeithasol eu plant. Gellir sicrhau'r rhieni y bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol a phroffesiynol a'i defnyddio er lles y plentyn yn unig.

Nid oes lle i fwlian yn ethos yr ysgol a cheisiwn sicrhau fod yr ysgol yn lle hapus i bawb. Ceisiwn atal bwlian rhag digwydd ond os digwydd, bydd yr athrawon yn ymateb yn syth ac fe'i cymerir o ddifrif. Mae gennym bolisi pendant ac mae yn rhan o gwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol. Gwnawn ein gorau i greu hinsawdd lle mae plant yn barod i drafod eu teimladau, ac yn ddigon hyderus i ddweud wrth athro os byddan nhw eu hunain yn cael eu bwlian neu os byddan nhw'n ymwybodol fod plentyn arall yn cael ei fwlian.

Hefyd mae Cynorthwywyr Cyntaf yn yr ysgol os bydd angen sylw meddygol.

# Diogelwch

Disgwylir i ymwelwyr gofrestru yn Nerbynfa'r Ysgol, a gwisgo bathodyn ymwelydd tra eu bod ar dir yr ysgol.

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynyddoedd 7 – 11 adael tir yr ysgol yn ystod y dydd, gan gynnwys yr awr ginio. Bydd sancsiwn i unrhyw ddisgybl sy'n gwneud hynny.

Mae cyflenwad da o gamerâu diogelwch mewn mannau strategol o gwmpas yr adeilad yn allanol, ac amgylchynir tir yr ysgol gan ffens neu wal uchel. Pan nad yw'r ysgol ar agor, diogelir yr adeilad a'i gynnwys gan larwm.

Trefnir dril tân yn rheolaidd, ac fe gysylltir larwm tân yr ysgol â gorsaf y gwasanaeth tân. Pe bai'r larwm tân yn cael ei gynnau yn ddamweiniol, rydym yn dal i ymarfer y dril tân.

# Cytundeb Cartref/Ysgol

Mae'r cytundeb cartref/ysgol yn adlewyrchu disgwyliadau'r ysgol sef Cymreictod, Cwrteisi a Pharch. Mae'r ysgol a'r cartref yn cytuno i:

Darparu addysg gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darparu addysg dda.

Annog disgwyliadau uchel.

Hyrwyddo cyflawniad a chyrhaeddiad uchel.

Hyrwyddo parch tuag at eraill.

Mae copi o'r cytundeb ar gael yn llyfr cyswllt y disgyblion.

# Datblygiad Ysbrydol, Moesol a Diwylliannol

Dylai holl ethos yr ysgol, ynghyd â phob pwnc yn y cwricwlwm fod yn foddion i hybu datblygiad ysbrydol moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Bydd yn sylfaen ar gyfer eu bywyd fel oedolion ac fel aelodau o gymdeithas, ac yn eu galluogi i werthfawrogi diwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae gwerthoedd Ysgol Glantaf yn anelu at greu ethos lle mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd:

(a) adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg
(b) dweud y gwir
(c) cadw addewid
(ch) parchu hawliau ac eiddo eraill
(d) ymddwyn yn deg tuag at eraill a dangos goddefgarwch.
(dd) helpu'r rhai llai ffodus, y gwan a'r anghenus
(e) derbyn cyfrifoldeb a sylweddoli beth fydd canlyniadau eu gweithredoedd
(f) hunanddisgyblaeth

***Nod ac Amcanion***

Mewn partneriaeth â’r cartref dylai’r ysgol alluogi’r disgyblion i:

(a) Chwilio am ystyr a phwrpas drwy ofyn cwestiynau pwysig.
(b) Ddod i adnabod eu hunain - eu meddyliau, teimladau ac emosiynau a datblygu mewn hunan barch.
(c) Feithrin perthynas a chydnabod gwerth pob unigolyn a’r gymdeithas y maent yn aelodau ohoni.
(ch) Fynegi eu teimladau drwy gelf, dawns, cerddoriaeth, llenyddiaeth, crefftau ac ymarfer eu dychymyg a’u gweledigaeth.
(d) Ymateb i brydferthwch a charedigrwydd; pryderu am anghyfiawnder a chasineb, a dysgu rheoli eu teimladau ac emosiwn - a thrwy hynny dyfu mewn dealltwriaeth a goddefgarwch.
(dd) Wahaniaethu rhwng y drwg a’r da.
(e) Fod yn ymwybodol o reolau a chonfensiynau’r gymdeithas, a’u dilyn.
(f) Ymddwyn yn foesol ac yn egwyddorol.
(ff) Wneud penderfyniadau doeth am bynciau moesol.
(g) Dderbyn cyfrifoldeb a dangos blaengaredd.
(ng) Ehangu ar eu profiadau cymdeithasol a diwylliannol.

***Gweithredu:*** Rhaid gweithredu'r rhain drwy:-

1) Ethos a bywyd cyffredinol yr Ysgol.
2) Cwricwlwm yr Ysgol.
3) Y Gwasanaethau.

1. ***Ethos yr Ysgol***

(a) Mae hwn yn cael ei adlewyrchu yn nod ac amcanion yr ysgol ac yn ein polisïau.

(b) Sicrhau fod pawb yn ymwybodol o werthoedd yr ysgol fel cymuned, ac yn eu harddel, yn ddisgyblion, athrawon a rhieni.

(c) Creu ymwybyddiaeth o'u treftadaeth a'r diwylliant Cymreig.

(ch) ***Cefnogi achosion da:*** Mabwysiedir un brif elusen gan yr holl ysgol bob blwyddyn yn ogystal â chefnogi elusennau eraill yn achlysurol yn ystod y flwyddyn, e.e. Plant mewn Angen, Hosbis George Thomas ayb

**2.** ***Cwricwlwm yr Ysgol***

(a) Dylai pob pwnc yn y cwricwlwm fod yn fodd i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

(b) Dylid rhoi'r cyfle i'r disgyblion drafod a mynegi ac archwilio eu safbwyntiau ym mhob pwnc.

**3.** ***Gwasanaethau***

(a) Mae pob athro dosbarth a'r dosbarth yn gyfrifol am gynnal y gwasanaeth yn eu tro.

(b) Rhoddir llawer o gyfle i'r disgyblion gymryd rhan yn eu tro, a thrwy hynny, cânt gyfle i archwilio a dadansoddi credoau, i ystyried pwysigrwydd gweddi, myfyrdod a distawrwydd.

(c) Cânt hefyd bob cyfle i ystyried pa mor berthnasol yw syniadau a chredoau i'w bywydau.

(ch) Cânt ddatblygu'r ymdeimlad o gymuned wrth ddysgu meddwl am anghenion pobl eraill.

(d) Drwy gyfrwng y gwasanaeth ceir cyfle penigamp i gadarnhau a gweithredu gwerthoedd yr ysgol a helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da.

(dd) Ceir cyfle i arddangos a dathlu llwyddiant ac arferion da cymuned yr ysgol yn y gwasanaeth.

(e) Dylai'r gwasanaeth fod yn gyfrwng gwerthfawr er hybu datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion.

# Gweithgareddau Allgyrsiol

Ein nod yw rhoi addysg gyflawn i bob disgybl. Anogir ein disgyblion i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Cânt y cyfle i ddatblygu eu dawn a'u hyder mewn nifer helaeth o feysydd y tu allan i furiau'r dosbarth.

Ceir llawer o weithgareddau llys yn yr ysgol. Rhennir y dosbarthiadau i bedwar llys - Dewi, Dyfrig, Illtud a Teilo a chynhelir cystadlaethau ysgol gyfan e.e. Gŵyl Rhedeg Traws Gwlad, Gŵyl Chwaraeon, Eisteddfod, Athletau yn ogystal â chystadlaethau i flwyddyn benodol.

Cefnogir amrywiol weithgareddau'r Urdd, gweithgareddau cerddorol a drama, yr Eisteddfod a gwahanol gystadlaethau chwaraeon, a cheir llwyddiant cyson. Yn ogystal, mae disgyblion Bl. 7 yn mynychu gwersyll Llangrannog ym mis Hydref.

Mae ein perfformiadau cyhoeddus yn adlewyrchu doniau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm ac yn tanlinellu cyfraniad ac ymroddiad llawer o adrannau.

Mae teithiau tramor yn rhoi cyfle i ddisgyblion ehangu eu gorwelion. Datblygwyd cysylltiad agos â Landerneau yn Llydaw ac â Bergneustadt ger Cologne gan yr Adran Ieithoedd Tramor drwy'r cynllun cyfnewid blynyddol. Trefnir nifer o deithiau eraill i'r cyfandir gan wahanol adrannau.

Yn ogystal, trefnir nifer o deithiau gan wahanol adrannau e.e. i ganolfannau awyr agored, cyrsiau maes, sefydliadau gwahanol a cheir nifer o gyrsiau pynciol yn ogystal â chyrsiau'n gysylltiedig â chynllun Gwobr Dug Caeredin.

Yn ogystal cynhelir nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl yr ysgol gan wirfoddolwyr ymhlith aelodau'r staff a swyddogion chweched dosbarth. Anogir y disgyblion i ymuno â'r gweithgareddau hyn er mwyn manteisio ar bob agwedd o fywyd yr ysgol.

# Polisi Codi Tâl

Codir tâl am gyrsiau nad ydynt yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm ond gofynnir am gyfraniad gwirfoddol tuag at gyrsiau eraill. Defnyddir grantiau allanol i leihau neu ddileu’r gost ar gyfer disgyblion sydd yn hawlio prydau ysgol am ddim.

# Chwaraeon

Mae gan yr ysgol gae rygbi, cae bob tywydd a chae hoci ar lannau Afon Taf. Yn ogystal mae wyneb tarmac ar gyfer chwarae pêl-rwyd, dwy gampfa a Neuadd Chwaraeon maint pedwar cwrt badminton.

Anelwn ar gydbwysedd rhwng campau sydd yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan, a'r cyfle-oedd eraill mewn cystadlaethau rhwng ysgolion. Yn y categori cyntaf mae ein chwaraeon rhyng-lysol, y gystadleuaeth draws-gwlad ysgol gyfan, neu'r Ŵyl Chwaraeon. Yno mae cyfle i nifer mawr o ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth sylweddol o gampau, ar y maes, neu dan do.

Mae Glantaf yn enwog am drefnu llu o gystadlaethau yn y campau arferol, megis rygbi, pêl-droed, hoci, pêl-fasged, pêl-rwyd, tenis, athletau, nofio, badminton neu griced. Trefnir y gemau ar ôl oriau ysgol yn ogystal â'r penwythnos, yn erbyn ysgolion eraill yn yr ardal, a hefyd dros y ffin yn Lloegr neu mewn gwledydd tramor. Mae cenedlaethau o ddisgyblion Glantaf wedi mwynhau teithiau tramor, gan chwarae yn erbyn timau o safon uchel, a hefyd yn creu cysylltiadau rhyngwladol gwerthfawr.

Credwn fod chwaraeon yn rhoi cyfle i ddisgyblion o bob gallu ddangos eu cryfderau, a thrwy chwarae mewn tîm ddatblygu'r ymdeimlad o berthyn ac o gyfrifoldeb tuag at eraill.

Canmolwn hefyd gampau unigolion disglair sydd wedi cynrychioli Cymru, ac fe welir eu lluniau ar wal un o brif goridorau'r ysgol.

Rydym yn ffodus bod sawl athro neu athrawes yn hyfforddi gwahanol dimoedd yr ysgol, a thrwy hynny yn rhoi cyfle i rychwant eang o ddisgyblion gymryd rhan.

# Cadw'n Iach

Bydd gwersi gwyddoniaeth, addysg gorfforol, ABCh a bwyd yn cefnogi disgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau iach ac yn eu hyfforddi am ddiet cytbwys a manteision ymarfer corff. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth sylweddol o weithgareddau allgyrsiol chwaraeon ac mae ffreutur yr ysgol yn darparu ystod eang o brydau a diodydd iach. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion 'blas am oes'.

# Cwricwlwm

Credwn mai cwricwlwm ysgol yw pob gweithgaredd y mae'r disgybl yn ymwneud â hi sydd yn gysylltiedig â bywyd yr ysgol, yn y gwersi, y tu allan iddynt, gwaith cartref, gwasanaethau, gwaith gwirfoddol, profiad gwaith, chwaraeon, profiadau diwylliannol a dyngarol, y pynciau a'r meysydd llafur, y sgiliau sylfaenol a sgiliau astudio.

Cynigir cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol drwy'r ysgol. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, bydd disgyblion yn dewis pynciau, ac, i ryw raddau bychain, byddant yn dechrau arbenigo ond bydd ehangder a chydbwysedd yn parhau. Ceisir sicrhau nad oes drysau pynciol yn cael eu cau yng Nghyfnod Allweddol 4, a bydd parhad a datblygiad yn y Chweched Dosbarth, neu mewn sefydliad arall neu mewn hyfforddiant y tu allan i'r ysgol yn egwyddor sylfaenol.

Mae hawl gan bob rhiant neu warcheidwad sydd â chwyn ffurfiol am y cwricwlwm i ysgrifennu at Glerc Bwrdd Llywodraethol yr Ysgol (gweler cyfeiriad yr ysgol).

**Cyfnod Allweddol 3 [Blynyddoedd 7, 8 a 9]**

**Pynciau:** Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Ffrangeg neu Almaeneg, Hanes, Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Drama, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Trefnir blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ddau fand dysgu sydd yn gyfartal o ran ystod gallu. Ceir setio o ran gallu yn y bandiau hyn. Bydd dosbarthiadau gallu cymysg o fewn band yn y gwersi Addysg Gorfforol a D&T. Bydd y disgyblion yn cael eu cofrestru mewn grwpiau cymysg eu gallu. Mae gwersi ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Bydd rhai disgyblion yn dechrau'r ail iaith fodern ym Mlwyddyn 9.

**Cyfnod Allweddol 4 [Blynyddoedd 10 a 11]**

Parheir â dosbarthiadau gallu cymysg ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol a'r cwrs ABCh ond ceir setio ar gyfer gwersi Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, |Bagloriaeth Cymru ac Addysg Grefyddol. Yn y pynciau dewisol mae'r grwpiau'n gymysg eu gallu oni bai bod mwy nag un grŵp yn dilyn pwnc yn yr un golofn a bod yr adran yn setio.

**Pynciau dewisol [ar ben y pynciau craidd a restrir uchod]**

*Ieithoedd* Ffrangeg, Almaeneg, Lladin

*Dyniaethau* Hanes, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Dyniaethau

*Creadigol/Ymarferol* Drama, Astudiaethau'r Cyfryngau, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol *Technoleg* Dylunio a Thechnoleg: Defnyddiau Gwrthiannol, Cynhyrchion Graffigol, Tecstilau, Datblygiad y Plentyn, Arlwyo, Technoleg Gwybodaeth, Electroneg

*Busnes* Astudiaethau Busnes, Economeg

*Galwedigaethol* Construction, Trin Gwallt a Harddwch, Atgyweirio Cyfrifiaduron, Cynnal a Chadw Ceir.

CWRICWLWM CA4

**Mae newidiadau sylweddol yn digwydd i gymhwysterau CA4 ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn effeithio ar y cwriclwmw a'r pynciau caiff eu darparu yn y dyfodol.**

**<u>Blynyddoedd 12 a 13</u>**

**<u>Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol</u>**

Cemeg, Bioleg, Ffiseg, Cyfrifiaduro, Mathemateg Bur a Mecaneg, Mathemateg Bur ac Ystadegaeth, Mathemateg Ddwbl, Cymraeg, Saesneg, Almaeneg, Ffrangeg, Lladin, Hanes, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefydd, Gwleidyddiaeth, Cerdd, Technoleg Cerdd, Celf a Dylunio, Drama, Astudiaethau'r Cyfryngau, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch, Economeg, Cymdeithaseg, Seicoleg

**<u>Safon Uwch Galwedigaethol</u>**

Busnes, Twristiaeth a Theithio, Hamdden ac Adloniant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**<u>Cyrsiau Galwedigaethol</u>**

BTEC Twristiaeth, BTEC Chwaraeon, CACHE Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus,

ASDAN Gweithio tuag at fod yn annibynnol, Atgyweirio Cyfrifiaduron

***<u>Pwyntiau Ychwanegol</u>***

Bydd pob disgybl yn dilyn y Bagloriaeth Cymru a hyd at pewar cwrs uwch gyfrannol. Bydd gwersi ail-sefyll T.G.A.U. Mathemateg, Saesneg a Chymraeg yn cael eu hamserlennu os oes modd ac yn ôl y galw. Er mwyn ail-sefyll pynciau eraill bydd angen dilyn gwersi Blwyddyn 11.

Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol o'r llawlyfrau sy'n cael eu paratoi yn flynyddol sef:

*Llawlyfr Dewisiadau 14+*

*Llawlyfr Dewisiadau 16+*

Mae polisïau'r ysgol ar gael i unrhyw riant sydd am eu gweld.

Cafodd yr ysgol Arolwg fis Ebrill 2011 ac mae'r adroddiad ar gael yn yr ysgol.

**Dulliau Dysgu**

Defnyddir amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu: gwaith dosbarth cyfan, gwaith grŵp, gwaith pâr a gwaith gan yr unigolyn. Gall yr addysgu fod yn athro-ganolog, neu fe all ganolbwyntio ar y disgybl yn cyflawni ystod eang o dasgu gwahanol, gan gynnwys defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae dros 250 o gyfrifiaduron gennym yn yr ysgol ac mae cyfeiriad e-bost gan bob disgybl. Gallant hefyd gysylltu â'r rhyngrwyd er mwyn gwneud gwaith ymchwil.

Tanlinellir pwysigrwydd meddwl, myfyrio, ymchwilio, datrys problemau, gwerthuso, siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, ac adlewyrchir hynny yn y dulliau addysgu a dysgu amrywiol a geir yn yr ysgol.

CWRICWLWM Ol-16

**Mae newidiadau yn digwydd i gymhwysterau ol-16 ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn lleihau'r niferoedd o bynciau safon uwch sydd ar gael yn genedlaethol.**

# Addysg Grefyddol

Yn ôl gofynion Deddf Addysg 1988, mae Addysg Grefyddol yn bwnc statudol i bob disgybl yn yr ysgol. Mae Addysg Grefyddol yn rhan sylfaenol o gwricwlwm yr ysgol. Mae'r cyrsiau yn adlewyrchu'r gymuned y mae'r ysgol yn rhan ohoni. Ceir cyfle unigryw i ddysgu am chwe phrif grefydd y byd gan roi pwyslais ar Gristnogaeth. Mae'r ysgol yn gwbl anenwadol ac fe adlewyrchir hynny o fewn y cyrsiau. Astudir ac ystyrir llawer o agweddau diddorol ar y crefyddau gan gynnwys sylfaenwyr, gwyliau a dathliadau, defodau tyfiant, llyfrau sanctaidd, addoli ac ati. Ceir cyfle hefyd i drafod credoau hiwmanistaidd, atheïstaidd ac agnostig. Bwriad y cwrs yw arddangos crefydd fel ffordd o fyw ynghyd â hybu parch a goddefgarwch tuag at eraill. Mae gennych yr hawl i dynnu eich plant yn gyfan gwbl neu'n rhannol o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Cysylltwch â'r pennaeth blwyddyn os ydych chi eisiau trafod trefniadau addysg grefyddol amgen.

# Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad y disgybl yn bersonol ac yn gymdeithasol ar draws y cwricwlwm, yn cynnwys dinasyddiaeth weithgar, iechyd a lles emosiynol, datblygiad moesol ac ysbrydol, paratoi ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu cynaliadwyaeth a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae Ysgol Gyfun Glantaf yn gweithredu polisi **Cyfle Cyfartal** gan ddal y dylid galluogi pob person ifanc, o ba ryw, hil, lliw, credo neu anabledd bynnag y bydd, i wireddu ei allu a'i botensial hyd yr eithaf ym myd addysg a hyfforddiant. Mae sicrhau cyfle cyfartal yn fater i'r ysgol gyfan ac yn ymwneud â'r cwricwlwm cudd. Mae'n rhan annatod o ethos yr ysgol ac yn berthnasol i'r staff dysgu, ac i gynorthwywyr.

Mae Addysg Iechyd yn chwarae rhan bwysig a chanolog yng nghwricwlwm pob disgybl er mwyn iddynt gael gwybodaeth am bynciau perthnasol a'u deall; byddant felly yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol, a'r ymagwedd a fydd yn arwain at ffordd o fyw gyfrifol ac iach.

Mae addysg cyffuriau ac addysg rhyw yn cael eu dysgu oddi mewn i raglen yr ysgol ar gyfer addysg iechyd ac ar adegau cymwys yn natblygiad y disgyblion.

Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cydweithrediad y rhieni, o sensitifrwydd i gefndir, ac o gynllunio gofalus â fframwaith moesol i'r cyfan.

# Addysg Rhyw

***Diffiniad***

Mae Addysg Rhyw mewn ysgol yn broses sy'n datblygu, gan ddechrau yn yr ysgol gynradd a pharhau drwy gydol gyrfa ysgol. Nid propaganda yw, na chwaith wybodaeth ffeithiol ar ei phen ei hun, ond mae yn cynorthwyo pobl ifanc i ystyried eu hagweddau a'u gwerthoedd, ac yna i wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth honno. Mae angen i'r disgyblion ddod yn ymwybodol o effeithiau ac o ganlyniadau eu gweithredoedd a hefyd i fod yn ymwybodol o'u nwydau nhw eu hunain.

***Bwriad a Nod***

| | | |
|---|---|---|
| Addysgiadol | - | archwilio dirnadaeth a syniadau |
| | - | derbyn gwybodaeth addysg |
| Bugeiliol | - | egluro gweithredoedd a gwerthoedd |
| | - | dod yn ymwybodol o wahanol farn am rywioldeb |
| | - | medru adnabod a defnyddio cefnogaeth |
| | - | datblygu hunan-barch a'r syniad o gyfrifoldeb |
| Cymdeithasol | - | dimensiwn moesol, crefyddol a chyfreithiol |
| | - | ymestyn tuag at rieni a chymuned |
| Arbedol | - | perthynas anghyflawn |
| | - | beichiogrwydd anfwriadol |
| | - | clefydau a drosglwyddir trwy gyfathrach rywiol. |

***Cynnwys***

Mae Addysg Rhyw yn cael ei dysgu fel rhan o Raglen ABCh ac mae hefyd yn rhan anhepgor o wersi Bioleg.

Mae'n cynnwys y modiwlau canlynol: newidiadau corfforol a glasoed; datblygiad y corff a chenhedlu; penderfyniadau personol a datblygiad emosiynol; rhyw a'r gyfraith; perthynas; dulliau atal cenhedlu; heintiau rhywiol.

***Adnoddau***

Athrawon hyderus a phrofiadol yn defnyddio offer clyweled a gweledol; asiantaethau allanol yn cynnwys siaradwyr gwadd; llyfrau a thaflenni sy'n addas ar gyfer anghenion ac oedran y disgyblion;

***I Grynhoi***

Wrth ddysgu Addysg Rhyw rhaid ystyried yn ddigonol gydweithrediad rhieni a sensitifrwydd i gefndir yr unigolyn gan gynllunio'n ofalus â fframwaith moesol. Mae hawl gan rieni/warcheidwaid dynnu plentyn allan o wersi nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

ADDYSG RHYW

**Mae hawl gan rieni/warcheidwaid dynnu plentyn allan o wersi nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.**

# Addysg Gysylltiedig â Gwaith

***Amcanion***

- Defnyddio cysylltiadau â diwydiant, yn cynnwys profiad gwaith, er mwyn datblygu profiadau dysgu'r disgyblion a chyfoethogi'r cwricwlwm.
- Meithrin y ddealltwriaeth bod y gymuned a diwydiant yn gyd-ddibynnol ac er mwyn gweld y berthynas rhwng gwahanol bobl yn y gweithle.
- Paratoi pobl ifainc ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.
- Defnyddio cysylltiadau â diwydiant er mwyn cefnogi datblygiad staff.
- Darparu cyfleodd i ddisgyblion weithio fel aelod o dîm i ddatrys problemau ac ennill profiadau drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.
- Datblygu ystod o sgiliau yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu, cydweithredu, ymchwilio, defnyddio data, dadansoddi, gwneud penderfyniadau a gwerthuso.
- Hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a phersonol disgyblion.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau ag agwedd sy'n berthnasol i fyd gwaith, hamdden a dinasyddiaeth.

***Darpariaeth***

**Gwersi Pynciol**

Mae'r adrannau pynciol wedi creu cysylltiadau allanol eu hunain sydd yn ymwneud â'r byd gwaith. Yn ogystal, mae nifer fawr o gysylltiadau wedi eu meithrin ar gyfer y cynlluniau ABCh ar draws blynyddoedd yr ysgol.

**Profiad Gwaith**

Mae cyfleoedd i ddisgyblion fynychu lleoliad profiad gwaith am wythnos ym mlwyddyn 12. Gall y lleoliadau fod yn rhai sydd wedi eu trefnu gan Wasanaeth Gyrfa Cymru neu yn rhai mae'r disgyblion wedi eu trefnu eu hunain. Yn y ddwy achos cynghorir y disgyblion cyn iddynt benderfynu ar eu lleoliadau er mwyn ceisio trefnu profiad gwaith fydd yn adlewyrchu eu diddordebau gyrfaol a phersonol. Yn ogystal, mae cyfle i nifer fach o ddisgyblion CA4 ddilyn cyfnod estynedig o brofiad gwaith er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau o fudd iddynt wedi gadael yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn gwario canran llai o'u hamser yn yr ysgol yn canolbwyntio'n benodol ar wella'u sgiliau allweddol.

**Cyngor Gyrfaol - Gyrfa Cymru**

Mae ein Swyddog Gyrfaoedd o Gyrfa Cymru yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn trafod a chynghori disgyblion. Mae hefyd yn ymweld ar nosweithiau rhieni ac ar ddiwrnodau canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol, eto er mwyn trafod a chynghori.

**Cyngor Gyrfaol - Mewnol**

Bl 11 – Prif ffocws y flwyddyn hon yw'r cyfweliadau gyrfaol.

Bl 12&13 – Prif ffocws ym mlwyddyn 12 yw paratoi ar gyfer y cyfnod o brofiad gwaith ac ym mlwyddyn 13 canolbwyntio ar baratoadau gyrfaol.

# DIWRNODAU GWEITHGAREDD MENTER

Mae'r Diwrnodau Gweithgaredd Menter yn cael eu cynnal ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae'r gweithgareddau yn dibynnu ar anghenion y flwyddyn benodol; er enghraifft, mae Blwyddyn 10 yn dilyn gweithgareddau yn ymwneud â phrofiad gwaith tra bod Blwyddyn 9 yn datblygu eu sgiliau cyd-weithio wrth greu tegan wedi ei ail-gylchu. Mae'r gweithgareddau oll yn pwysleisio cyd-weithio a datblygu sgiliau mae cyflogwyr yn eu galw'n sgiliau hanfodol wrth ymwneud â phobl eraill yn y gweithle. Bydd tîm o gynghorwyr o ddiwydiant, wedi eu trefnu gan Gyrfa Cymru, yn ein cynorthwyo ar y dyddiau hyn.

# Ystyried Achwynion

Ceisiwn ddatrys unrhyw gwynion yn anffurfiol yn gyntaf, ond os ydy'r broblem yn parhau gallwch gysylltu gyda chlerc y llywodraethwyr yn yr ysgol i gael manylion o'n trefniadau ar gyfer Ystyried Achwynion Cwricwlwm ac achwynion eraill.

# DISGWYLIADAU GLANTAF

Disgwyliadau'r ysgol yw *Cymreictod, Cwrteisi* a *Pharch*. Disgwylir i bob aelod o gymuned yr ysgol ddangos a hyrwyddo'r rhain trwy eu hymddygiad a'u harferion. Enghreifftiau yn unig yw'r rhestr isod.

Dangoswn ein Cymreictod trwy:

- siarad yr iaith yn gyson yn yr ysgol ac yn ystod gweithgareddau allgyrsiol.
- gyfrannu at weithgareddau diwylliannol a chystadleuol, er enghraifft gweithgareddau'r Urdd.
- annog a chefnogi eraill i ddangos eu Cymreictod.

Dangoswn Gwrteisi a Pharch tuag at ein gilydd trwy:

- beidio â tharfu ar waith eraill.
- wrando'n astud ac ymateb yn gwrtais i eraill.

Dangoswn Gwrteisi a Pharch at ein hathrawon trwy:

- fod yn brydlon i bob gwers.
- eistedd yn y man a ddisgwylir gan yr athro
- gadw llyfr cyswllt ar y ddesg gydol y wers
- weithio'n dawel a dilyn cyfarwyddiadau'r athro y tro cyntaf.
- roi llaw i fyny cyn siarad.
- gyrraedd a gadael y dosbarth yn drefnus.
- gadw ffônau symudol a theclynnau electronig eraill allan o'r golwg ac wedi eu diffodd.

Dangoswn Barch tuag at ein haddysg trwy:

- fod yn bresennol ac yn brydlon bob dydd, ac yn brydlon i bob gwers.
- ddod â'r holl offer i'r gwersi.
- wneud ein  gorau bob tro.
- weithio yn galed i gadw at ddyddiadau cau penodol.
- sicrhau bod gwaith a gollwyd yn cael ei gwblhau.
- ddefnyddio cyfrifiaduron yr ysgol at bwrpas gwaith ysgol yn unig.

Dangoswn Barch tuag at ein hysgol trwy:

- wisgo'r wisg ysgol gywir.
- aros ar safle'r ysgol drwy'r dydd.
- roi sbwriel yn y bin a chadw'r ysgol yn lân.
- beidio â chnoi gwm ar safle'r ysgol na defnyddio Tippex na peniau ffelt.

***DYLEM GOFIO AM HAWL ERAILL I GAEL YR ADDYSG ORAU BOSIBL***

***DYLEM SIARAD CYMRAEG ONI BAI BOD IAITH Y WERS YN WAHANOL***

# DISGYBLAETH

Ceisiwn greu hinsawdd bositif yn yr ysgol er mwyn dylanwadu ar ymddygiad y disgyblion. Mae gan yr ysgol gyfan gyfrifoldeb i sicrhau bod safonau uchel drwy'r ysgol ac y mae'r rhieni yn chwarae rôl bwysig i hyrwyddo ymddygiad da mewn partneriaeth gyda'r athrawon. Rhaid derbyn mai'r ddisgyblaeth orau yw hunanddisgyblaeth. Ceisiwn greu ymdeimlad o gymuned y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol ac annog ymwybyddiaeth o bwrpas ac ymdeimlad o werthoedd cytûn. Ceisiwn hefyd godi ymwybyddiaeth o berchnogaeth a pherthyn a chreu amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel.

Disgwyliadau sylfaenol yr ysgol yw Cymreictod, Cwrteisi a Pharch. Bydd disgwyliadau'r ysgol yn cael eu pwysleisio a'u hatgyfnerthu yn gyson. Bydd ymddygiad annerbyniol yn arwain at gamau yn y system ymddygiad gyda'r rhain yn cael eu nodi yn llyfr cyswllt y disgybl er mwyn sicrhau fod rhieni yn ymwybodol.

Yr un pryd, cydnabyddwn gryfderau pob disgybl ac anogwn falchder yn yr ysgol a'i gwerthoedd. Un o'n dulliau o gyflawni hyn yw'r defnydd o'n stampiau clod sydd yn cael eu cofnodi yn y llyfr cyswllt.

Gofynnwn am gefnogaeth y rhieni er mwyn hyrwyddo ymddygiad da mewn partneriaeth gyda'r ysgol.

Mae hawl gan rieni neu warcheidwaid wneud apêl yn erbyn diarddeliad eu plentyn drwy ysgrifennu at Glerc Bwrdd Llywodraethol yr Ysgol (gweler cyfeiriad yr ysgol).

# Gwaith Cartref

Rhoddir Llyfr Cyswllt i bob disgybl, a gosodir gwaith cartref yn rheolaidd yn ôl amserlen a gyhoeddir yn flynyddol.  Pan osodir gwaith cartref rhaid i'r disgybl nodi hynny yn y Llyfr Cyswllt.  Yn y modd hwn gall rhieni gadw golwg ar y sefyllfa a sicrhau bod gwaith cartref yn cael ei wneud yn gydwybodol gan y disgyblion.

Mae'r Llyfr Cyswllt yn ddolen gyswllt bwysig rhwng yr ysgol a'r cartref.  Mae'n helpu rhieni ac athrawon i gadw mewn cysylltiad cyson ar faterion sy'n ymwneud â lles y disgyblion.

Mae polisi gwaith cartref yr ysgol yn ateb gofynion TGAU a'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'u pwyslais ar weithio'n annibynnol gan ddefnyddio'r sgiliau angenrheidiol.  Felly, mae pob math o waith cartref yn bwysig, nid gwaith ysgrifenedig yn unig.  Mae trafod, ymchwilio, darllen, dysgu geirfa, gwylio ambell raglen deledu a gwneud gwaith ymarferol yn hollbwysig hefyd.

Dyma'r amser y disgwyliwn i fwyafrif y disgyblion ei dreulio yn gwneud gwaith cartref mewn wythnos gyffredin :

| ***Blwyddyn*** | ***Oriau ar gyfer pob pwnc [dwbl ar gyfer pwnc craidd]*** | ***Cyfanswm oriau Gwaith Cartref mewn wythnos*** |
|---|---|---|
| 7 | ½ awr | 8 |
| 8 | 40 munud | 10 |
| 9 | 50 munud | 13 |
| 10 | 1¼ awr | 15 |
| 11 | 1½ awr | 17 |
| 12/13 | 5 - 7 awr | 25 [gan gynnwys gwersi rhydd ] |

**POLISI GWAITH CARTREF** (yr adrannau sydd yn berthnasol i ddisgyblion a rhieni)

**Amcanion Gosod Gwaith Cartref**

1. Ymestyn pob disgybl, gan ddefnyddio oriau cartref i ategu at y gwaith a gyflawnir yn yr ysgol. Nid yw oriau ysgol yn gyfnod digonol o amser i ddisgybl ddysgu'r holl bethau sydd eu hangen i sicrhau llwyddiant.
2. Annog pob disgybl i feithrin sgiliau gweithio'n annibynnol.
3. Meithrin sgiliau fel ymchwilio, cywain gwybodaeth a chwilota.
4. Meithrin sgiliau hunan ddisgyblaeth a rheolaeth amser.
5. Rhoi cyfle i'r athro asesu dealltwriaeth disgybl a thrwy wneud hynny rhydd gyfle i'r athro asesu effeithlonrwydd ei ddulliau addysgu.
6. Cadarnhau'r hyn a ddysgir yn y wers.
7. Bod yn estyniad naturiol o waith yn y dosbarth fel bod disgybl yn gweld dilyniant naturiol i'r gwaith.

**Canllawiau i'r Disgybl**

1. Mae gwaith cartref yn cael ei osod er mwyn sicrhau bod disgybl yn gallu llwyddo yn yr ysgol. Nid yw oriau gwersi yn ddigon i sicrhau eich bod yn llwyddo; rhaid gwneud gwaith cartref.
2. Mae gwneud gwaith cartref yn arwydd pwysig - mae e'n dangos eich bod chi yn gallu gweithio ar eich pen eich hunan, ac yn gallu trefnu'ch hunan. Mae disgyblion nad ydynt yn gwneud eu gwaith cartref yn rhai sydd yn methu a bod yn an-nibynnol ac yn methu a threfnu eu hunain.
3. Dylid nodi pob gwaith cartref yn y Llyfr Cyswllt.
4. Dylid gorffen gwaith cartref a'i gyflwyno ar y dyddiad cywir.
5. Dylai pob gwaith cartref gael ei gyflwyno yn daclus ac wedi ei orffen.
6. Dylai pob gwaith dysgu, ymchwilio, darllen, gwrando neu wylio cael ei wneud yn iawn ac yn drwyadl.
7. Dylid gwneud ymdrech i wneud yn siŵr fod gwaith cartref yn cynnwys sillafiadau a geirfa gywir, h.y. y dylech ddefnyddio geiriadur wrth wneud eich gwaith cartref.

**Canllawiau i Rieni**

1. Dylid annog plentyn i wneud gwaith cartref yn rheolaidd.
2. Dylai rhieni gyfeirio at y Llyfr Cyswllt i weld a oes Gwaith Cartref wedi ei osod, ac i weld a oes sylwadau oddi wrth athro neu athrawes. Gofynnwn i chi arwyddo'r Llyfr Cyswllt yn wythnosol. Os oes mater yn eich gofidio chi neu'n achosi pryder i chi, rhown anogaeth i chi ei nodi yn y Llyfr Cyswllt. Mae Athrawon Dosbarth yn darllen y Llyfr Cyswllt yn gyson.
3. Dylid sicrhau amgylchedd gweithio addas i bob disgybl - bwrdd, cadair, golau, geiriadur a distawrwydd.
4. Mae canllawiau amser wedi eu nodi. Gofynnwn i chi annog eich plentyn i weithio am gyfnodau rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd. Os nad oes gwaith amlwg wedi ei osod, gofynnwn i chi annog eich plentyn i ddarllen neu i adolygu.
5. Mae croeso i rieni drafod gwaith cartref gyda'u plant; fodd bynnag, gofynnwn i rieni gofio mai gwaith cartref i'r plentyn yw'r gwaith.

# Y Flwyddyn Ysgol

Ceir dyddiadau'r flwyddyn isod, yn llyfr cyswllt y disgyblion neu ar wefan y cyngor, www.caerdydd.gov.uk.

**2015-16**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | Diwedd |
|---|---|---|---|
| **Hydref** | Dydd Mawrth 1/9/2015 | Dydd Llun 26/10/15 – Dydd Gwener 30/10/15 | Dydd Gwener 18/12/2015 |
| **Gwanwyn** | Dydd Llun 4/1/16 | Dydd Llun 15/2/16 – Dydd Gwener 19/2/16 | Dydd Iau 24/3/16 |
| **Haf** | Dydd Llun 11/4/16 | Dydd Llun 30/5/16 – Dydd Gwener 3/6/16 | Dydd Mercher 20/7/16 |

**2016-17**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | Diwedd |
|---|---|---|---|
| **Hydref** | Dydd Mawrth 01/09/16 | Dydd Llun 24/10/16 - Dydd Gwener 28/10/16 | Dydd Gwener 16/12/16 |
| **Gwanwyn** | Dydd Mawrth 03/01/17 | Dydd Llun 20/02/17 - Dydd Gwener 24/02/17 | Dydd Gwener 07/04/17 |
| **Haf** | Dydd Llun 24/04/17 | Dydd Llun 29/05/17 – Dydd Gwener 02/06/17 | Dydd Gwener 21/07/17 |

- Bydd dydd Iau 1 Medi 2016 yn ddiwrnod HMS dynodedig ar gyfer pob Ysgol Gymunedol. Bydd pedwar diwrnod HMS arall yn ystod y flwyddyn.
- Calan Mai: 01/05/17

## PRESENOLDEB

Disgwyliwn fod pob disgybl yn anelu at fod yn bresennol 95% o'r amser. Cofier bod 90% yn gyfystyr ag absenoldeb o'r ysgol am un diwrnod cyfan bob pythefnos.

**Llythyrau Absenoldeb**

Yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag absenoldeb disgyblion, mae'n hollbwysig bod eglurhad prydlon ar gyfer bob absenoldeb. Gwnewch hyn drwy ateb neges testun/e-bost neu drwy ffonio'r ysgol ar y diwrnod cyntaf o'r absenoldeb. Mae angen eglurhad ysgrifenedig ar y diwrnod cyntaf o ddychwelyd i'r ysgol yn rhoi eglurhad llawn a'r holl ddyddiadau.

**Gwyliau**

Cyfarwyddyd Cyngor Sir Caerdydd yw i ysgolion beidio â chaniatáu absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. Felly, nid yw'r Pennaeth yn gallu rhoi caniatâd i ddisgybl fynd ar wyliau yn ystod y flwyddyn ysgol.

***Pwyswn ar rieni i beidio â threfnu gwyliau yn ystod y tymor, oni bai fod amgylchiadau arbennig yn gorfodi hynny ar deuluoedd. Mae presenoldeb llawn gydol y flwyddyn yn hanfodol bwysig i ddatblygiad disgybl.***

# Y Dydd Ysgol

Mae'r dydd ysgol yn cynnwys pedair wers yn y bore ac un yn y prynhawn. Dyma drefn y gwersi:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8.20 | - | 8.30 | - | Cyfarfod Athrawon |
| 8.30 | - | 8.55 | - | Cofrestru/Bugeilio/Gwasanaethau |
| 8.55 | - | 9.55 | - | Gwers 1 |
| 9.55 | - | 10.55 | - | Gwers 2 |
| 10.55 | - | 11.10 | - | EGWYL |
| 11.10 | - | 12.10 | - | Gwers 3 |
| 12.10 | - | 13.10 | - | Gwers 4 |
| 13.10 | - | 14.00 | - | CINIO |
| 14.00 | - | 15.00 | - | Gwers 5 gan gynnwys Cofrestru Prynhawn |
| 15.00 | | | - | Diwedd y Dydd |

# Cinio Rhad

Mae ffurflen ar gael gan yr ysgol ar gyfer gwneud cais am ginio rhad.

# Cyfle Cyfartal

Mae ysgol yn gweithredu cynllun cydraddoldeb a chynllun hygyrchedd er mwyn gwireddu ein nod o sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a rhanddeiliad. Mae manylion llawn o'r rhain ar gael o'r ysgol.

# Niferoedd yn yr Ysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 81 Bachgen | 95 Merch | 176 Disgybl |
| Blwyddyn 8 | 95 Bachgen | 74 Merch | 169 Disgybl |
| Blwyddyn 9 | 89 Bachgen | 82 Merch | 171 Disgybl |
| Blwyddyn 10 | 82 Bachgen | 64 Merch | 146 Disgybl |
| Blwyddyn 11 | 94 Bachgen | 111 Merch | 205 Disgybl |
| Blwyddyn 12 | 67 Bachgen | 84 Merch | 151 Disgybl |
| Blwyddyn 13 | 48 Bachgen | 94 Merch | 142 Disgybl |
| Cyfanswm | 556 Bachgen | 604 Merch | 1160 Disgybl |

Derbyniwyd 176 cais am le ar gyfer Medi 2015. Derbyniwyd pob un ac nid oedd unrhyw apeliadau am lefydd.

# Gwisg Ysgol

Ceir manylion am wisg yr ysgol, gwisg chwaraeon isod. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i gadw'r safon a osodwyd eisoes.

(a) Mae'n hawdd colli pethau yn yr ysgol, felly <u>dylid sicrhau fod enw'r disgybl ar bob dilledyn.</u> Dylid casglu eiddo coll yn brydlon o ystafell y gofalwr.

(b) Ni chaniateir gwisgo unrhyw dlysau yn yr ysgol heblaw <u>un</u> pâr o glustdlysau - styden blaen os dymunir, a honno yn y <u>glust.</u>

(c) Ni ddylid dod ag eiddo gwerthfawr i'r ysgol.

(ch) Ni chaniateir i'r disgyblion wisgo 'sgidiau hyfforddi' (*trainers*) heblaw yn y gwersi Addysg Gorfforol a Drama.

(d) Disgwylir bod steil gwallt trwsiadus o liw naturiol gan y disgyblion. DIM lliw an-naturiol, llinellau na phatrymau

**<u>RHESTR GWISG YR YSGOL</u>**

Trowsus ysgol ffit traddodiadol (dim steil jîns neu trwsus tynn) - glas tywyll

Neu sgert ffit traddodiadol o hyd addas (o leiaf at y pen-glin) - glas tywyll

**Blynyddoedd 7-9 :** Crys polo â bathodyn yr ysgol - glas golau

**Blynyddoedd 10-11 :** Crys polo â bathodyn yr ysgol - glas tywyll

**Blynyddoedd 7-11 :** Crys Chwys – gwddf crwn - â bathodyn yr ysgol - glas tywyll

Cot blaen (dim logo) - glas tywyll neu lwyd

neu Got ddwrglos ("fleece")/ cot law â bathodyn yr ysgol - glas tywyll

Sanau -glas tywyll DIM GWYN

Esgidiau neu trenyrs du synhwyrol (Dim trenyrs â lliw)



# Gwisg Addysg Gorfforol

**Rhaid enwi pob dilledyn - Dim logo cynllunydd**

**PAWB**

| | | |
|---|---|---|
| Siorts gymnasteg | - | glas tywyll |
| Crys Polo | - | coch â bathodyn yr ysgol |
| Sanau chwaraeon hir | - | glas tywyll, topiau glas golau |
| Sanau byr | - | gwyn |
| Tywel/Lliain | - | ar gyfer cawod |
| Esgidiau | - | esgidiau ymarfer ac esgidiau rygbi neu bêl-droed |

Trowsus tracwisg â bathodyn yr ysgol glas tywyll (dewisol)

**BECHGYN**

| | | |
|---|---|---|
| Crys rygbi â bathodyn yr ysgol | - | glas golau/glas tywyll dwyffordd |
| Siorts rygbi | - | glas tywyll, cotwm |

**MERCHED**

| | | |
|---|---|---|
| Sgort | - | glas tywyll |
| Crys rygbi â bathodyn yr ysgol (dewisol) | - | glas golau/glas tywyll dwyffordd |

**Bydd y taflenni archebu yn cael eu dosbarthu i'r disgyblion trwy'r ysgol gynradd.**

GWISG YSGOL A GWISG CHWARAEON YR YSGOL - BLE I BRYNU

‘YC SPORTS’

90 HEOL CRWYS

CAERDYDD

CF24 4NP

029 20237968

sales@ycsports.com

**Cyfathrebu beunyddiol**

Bydd darllen Y Llyfr Cyswllt yn feunyddiol yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgol ac am gynnydd ac ymddygiad eich plentyn, Gallwch weld sylwadau'r athrawon ar ddiwedd tasgau yn llyfrau ac yn ffeiliau eich plentyn.

**Adroddiadau Ysgrifenedig**

***Blynyddoedd 7, 8, 9***

| | |
|---|---|
| Diwedd Tymor yr Hydref | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Diwedd Tymor y Gwanwyn | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Diwedd Tymor yr Haf | Adroddiad Llawn a Hunanasesiad |

[Mae Blwyddyn 9 yn cynnwys asesiad athro ym mhob pwnc]

***Blynyddoedd 10***

| | |
|---|---|
| Ionawr | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Diwedd Tymor y Gwanwyn | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Diwedd Tymor yr Haf | Adroddiad Llawn a Hunanasesiad |

***Blwyddyn 11***

| | |
|---|---|
| Diwedd Tymor yr Hydref | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Mai | Adroddiad Llawn |
| Awst | Canlyniadau'r Arholiadau Allanol |

***Blwyddyn 12***

| | |
|---|---|
| Ionawr | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Tymor yr Haf | Adroddiad Llawn |
| Awst | Canlyniadau'r Arholiadau Allanol |

***Blwyddyn 13***

| | |
|---|---|
| Ionawr | Cofnod Cyrhaeddiad |
| Mawrth | Adroddiad Llawn |
| Awst | Canlyniadau'r arholiadau allanol |

**Cyfarfodydd Rhieni ac Athrawon**

Ceir o leiaf un cyfarfod rhwng 3.00 a 6.00 ar gyfer pob blwyddyn. Cyhoeddir y dyddiadau yn y Calendr Blynyddol a ddosberthir i bob cartref.

# Polisi Sefyll Arholiadau Cyhoeddus

Mae'r cyfle a'r hawl gan y disgyblion i sefyll, yn yr ysgol, arholiadau cyhoeddus sy'n addas i'w gofynion a safon eu gwaith. Serch hynny, rhaid nodi bod cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus yn gostus i'r ysgol a bod angen gosod amodau er mwyn sicrhau tegwch i'r disgyblion, yr athrawon a'r ysgol.

**Gweithredir yn unol â'r egwyddorion canlynol:**

1. Dylai disgyblion fynychu'r ysgol yn rheolaidd a mynychu'r gwersi priodol. Os bydd disgybl yn absennol yn amlach na 20 y cant o'r gwersi cyfan, bydd angen ystyried yn ofalus y rhesymau dros yr absenoldeb a'r doethineb o sefyll arholiad os nad yw'r gwaith dysgu wedi ei gwblhau.
2. Mae angen i'r disgybl ddangos tystiolaeth o ymdrech yn ei waith/ei gwaith, o ran:

   (a) cwblhau'r holl waith cartref sydd wedi ei osod

   (b) cadw cofnod manwl o'r nodiadau dosbarth

   (c) dangos ymdrech i ddysgu'r gwaith ar gyfer profion neu arholiadau. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar yr ysgol i gofrestru disgyblion sy'n dangos diffyg ymdrech ac ymroddiad i'r pwnc. Rhaid nodi yma ei bod yn ddyletswydd ar yr athro pwnc i dynnu sylw'r Pennaeth Adran a'r Pennaeth Blwyddyn os oes unrhyw ddisgybl yn dangos diffyg ymdrech yn y pwnc.
3. Rhaid cyflwyno pob darn o waith cwrs/cyweithiau sy'n rhan o'r asesiad terfynol erbyn y dyddiad penodedig. Bydd angen i'r Pennaeth Adran sicrhau bod y gwaith cwrs/cywaith yn dangos ymdrech a'i fod o safon dderbyniol cyn cofrestru'r disgyblion am yr arholiad.
4. Bydd yr ysgol yn talu tâl arholiad cyhoeddus pob disgybl unwaith yn unig. Mewn achosion o ail-sefyll arholiadau cyhoeddus, cyfrifoldeb y cartref yw talu am yr arholiadau hyn oni bai fod yna amgylchiadau arbennig.

Mewn unrhyw achos o ansicrwydd o ran cofrestru disgybl i'r arholiad bydd angen i'r athro gysylltu gyda'r Pennaeth Adran, y Pennaeth Blwyddyn, y Pennaeth Cynorthwyol [Arholiadau] ac, yn bwysig iawn, y rhieni. Mewn unrhyw achos o anghytuno, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Pennaeth.

# TREFNIADAU CWRICWLAIDD ARBENNIG GAN GYNNWYS ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

**Nod yr adran gynhwysiant:**

*"Lleihau rhwystrau dysgu a chymdeithasol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at addysg bwrpasol ac at holl weithgareddau'r gymuned. Gwneir hyn drwy ymateb yn hyblyg i anghenion dysgwyr unigol."*

**Crynodeb o Bolisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Amcanion

i) Sicrhau fod disgyblion ag AAA yn cael mynediad llawn at gwricwlwm eang a chytbwys ac at bob agwedd o fywyd yr Ysgol
ii) Adnabod anghenion disgyblion mor gynnar ag sydd yn bosib
iii) Diwallu anghenion addysgol arbennig disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.
iv) Darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau allweddol disgyblion er mwyn lleihau rhwystrau dysgu a sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm.
v) Hybu lles disgyblion a datblygu eu sgiliau cymdeithasol, sgiliau emosiynol, hunanhyder a'u hunanddelwedd.
vi) Creu amgylchedd gweithgar a sefydlog lle y gall disgyblion gael eu trin fel unigolion sy'n bwysig i'r gymuned.
vii) Annog a chynnal yr ymddygiad gorau posibl i bob disgybl.
viii) Hybu annibyniaeth disgyblion fel eu bod yn gallu ymateb i ofynion bywyd y tu hwnt i'r Ysgol.
ix) Cynnal disgwyliadau uchel a realistig o bob agwedd o ddatblygiad disgyblion.
x) Cyd-weithio mewn partneriaeth agos â disgyblion a'u rhieni, gan sicrhau bod llais y disgybl yn gryf o fewn trefniadau'r ddarpariaeth.

**Trefniant**

i) Sail trefniant yr Ysgol ar gyfer disgyblion ag AAA yw ymateb hyblyg ac unigol i anghenion. Ystyrir anghenion disgyblion yn unigol cyn llunio darpariaeth sy'n ymateb i'r anghenion a adnabyddir.
ii) Mae holl staff yr Ysgol yn derbyn manylion am anghenion pob disgybl gydag AAA ar ffurf Proffil Personol fel eu bod yn medru ymateb i'r anghenion hynny wrth addysgu'r disgyblion.
iii) Lleolir disgyblion yn nosbarthiadau arferol yr Ysgol lle bynnag y bo hynny'n bosib.
iv) Lleolir rhai disgyblion mewn grwpiau dysgu bychan fel eu bod yn gallu cael y gynhaliaeth sydd yn angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion.
v) Cynigir cefnogaeth cynorthwywyr dysgu i rai disgyblion a dosbarthiadau yn eu gwersi er mwyn lleihau rhwystrau dysgu a sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i fywyd yr Ysgol.

vi) Bydd rhai disgyblion yn cael eu tynnu allan o wersi arferol er mwyn derbyn cynhaliaeth grŵp bychan neu unigol i hybu sgiliau allweddol. Eleni, cynigir yr ymyriadau canlynol, ymhlith eraill: Anelu@ (Llythrennedd Cymraeg), T@rgedu Rhifedd (Rhifedd), Upskil (Ysgrifennu Cymraeg Lefel 2/3), Talkabout (Sgiliau Cymdeithasol), ELSA (Llythrennedd Emosiynol) a'r Hafan (hyblygrwydd cwricwlwm), Gweithiwr Allweddol (cefnogaeth mentora ychwanegol). Lle bo angen cynhaliaeth o'r fath, ceisiwn osgoi tynnu disgyblion allan o wersi pynciau craidd, Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol. Cynigir cynhaliaeth mewn grŵp bach gan staff arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol dwys.

vii) Yn unol ag ymchwil cyfredol ar ymyriadau llythrennedd a rhifedd, darperir ymyriadau sy'n parhau nifer penodol o wythnosau yn hytrach na blwyddyn academaidd gyfan.

viii) Gwahoddir disgyblion gydag anawsterau darllen yn y Gymraeg i gymryd rhan yn y Cynllun Darllen boreol yn ystod amser cofrestru boreol.

ix) Gwahoddir disgyblion gydag anawsterau darllen yn y Saesneg i gymryd rhan yn y Cynllun Darllen Cartref.

x) Mae gan yr Ysgol Ganolfan Adnoddau Arbenigol a ariennir gan Gyngor Sir Caerdydd er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth a dwys. Darperir rhaglenni arbenigol unigol i'r nifer fechan o ddisgyblion sydd o dan ofal y Ganolfan. Fel arfer, mae'r rhaglenni unigol yn gyfuniad o gynhaliaeth yn y brif-ffrwd a gwersi arbenigol gan staff y Ganolfan.

xi) Mae cysylltiadau agos rhwng staff yr Adran Cynnal Dysgu ac aelodau'r Tîm Cynnydd a Lles. Trwy hyn, sicrheir ein bod yn adolygu ac yn addasu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth a gynigir i ddisgyblion yn gyson.

xii) Mae perthynas dda iawn rhwng yr Adran Cynnal Dysgu a Chydlynwyr ADY yr Ysgolion Cynradd sy'n bwydo Glantaf. Trwy hyn, sicrheir gweithdrefnau pontio effeithiol sy'n cynnwys adnabod anghenion disgyblion yn gynnar.

xiii) Cydweithir yn agos gydag arbenigwyr ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y ddarpariaeth orau posib i'n disgyblion ac yn addasu ein hymateb i anghenion disgyblion yn ôl y galw.

xiv) Anogir rhieni i weithio'n agos gyda staff yr adran ac i gysylltu yn gynnar pe bai pryderon yn codi.

| | | |
|---|---|---|
| Pennaeth yr Adran Cynnal Dysgu / Cydlynydd AAA | - | Mrs Helen Sharkey |
| Athrawes a chyfrifoldeb dros y Ganolfan Arbenigol | - | Mrs Claire Wilson |
| Llywodraethwr â chyfrifoldeb am AAA | - | Mr Ceri James |
| Nifer y cynorthwywyr dysgu | - | 14 |

# Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3

| | | N | D | NC O1 | NCO 2 | NCO 3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | EP | 5+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Saesneg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 6.8 | 32.7 | 32.0 | 28.6 | 0.0 | 0.0 | 93.2 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *0.7* | *2.4* | *9.8* | *37.4* | *33.9* | *13.7* | *0.9* | *-* | *85.9* |
| Llafaredd | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 6.1 | 30.6 | 27.2 | 36.1 | 0.0 | 0.0 | 93.9 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *0.7* | *2.2* | *9.9* | *35.9* | *34.3* | *14.7* | *1.2* | *-* | *86.2* |
| Darllen | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 3.4 | 36.1 | 30.6 | 28.6 | 0.7 | 0.0 | 95.9 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *0.8* | *2.6* | *11.4* | *36.6* | *33.3* | *13.2* | *1.0* | *-* | *84.2* |
| Ysgrifennu | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.0 | 8.2 | 33.3 | 44.2 | 12.2 | 0.0 | 0.0 | 89.8 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.5* | *0.8* | *3.1* | *15.6* | *38.0* | *29.3* | *11.2* | *0.8* | *-* | *79.2* |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cymraeg Iaith Gyntaf** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 4.8 | 32.0 | 36.1 | 25.9 | 0.0 | 0.0 | 93.9 |
| | *Cymru* | *0.0* | *-* | *-* | *-* | *0.0* | *0.1* | *0.2* | *1.5* | *8.1* | *37.1* | *38.0* | *14.1* | *0.9* | *0.0* | *90.1* |
| Llafaredd | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 3.4 | 25.2 | 40.8 | 29.3 | 0.0 | 0.0 | 95.2 |
| | *Cymru* | *0.0* | *-* | *-* | *-* | *0.0* | *0.1* | *0.2* | *1.1* | *7.9* | *34.9* | *39.2* | *15.2* | *1.4* | *0.0* | *90.6* |
| Darllen | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 6.8 | 29.3 | 34.0 | 27.2 | 1.4 | 0.0 | 91.8 |
| | *Cymru* | *0.0* | *-* | *0.1* | *-* | *0.0* | *0.1* | *0.2* | *1.8* | *9.5* | *35.7* | *36.9* | *14.9* | *0.8* | *-* | *88.3* |
| Ysgrifennu | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 6.1 | 34.0 | 41.5 | 17.0 | 0.0 | 0.0 | 92.5 |
| | *Cymru* | *0.0* | *-* | *-* | *-* | *0.0* | *0.1* | *0.3* | *2.3* | *14.5* | *39.5* | *31.9* | *10.4* | *0.9* | *0.0* | *82.7* |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Mathemateg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 6.1 | 22.4 | 38.1 | 33.3 | 0.0 | 0.0 | 93.9 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *0.7* | *2.5* | *9.3* | *30.3* | *32.2* | *21.2* | *2.7* | *0.1* | *86.5* |
| **Gwyddoniaeth** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 3.4 | 19.7 | 33.3 | 43.5 | 0.0 | 0.0 | 96.6 |
| | *Cymru* | *0.2* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.3* | *0.6* | *1.2* | *6.9* | *35.8* | *36.5* | *16.9* | *1.1* | *0.1* | *90.4* |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Iaith Dramor Fodern** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.0 | 5.4 | 29.9 | 32.7 | 29.3 | 0.7 | 0.0 | 92.5 |
| | *Cymru* | *0.9* | *1.6* | *0.1* | *0.2* | *0.1* | *0.5* | *0.6* | *3.1* | *10.8* | *37.1* | *32.5* | *12.0* | *0.5* | *-* | *82.2* |
| **Dylunio a Thechnoleg** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.4 | 16.3 | 59.9 | 22.4 | 0.0 | 0.0 | 98.6 |
| | *Cymru* | *0.4* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.3* | *0.4* | *1.0* | *6.5* | *40.4* | *38.7* | *11.2* | *0.5* | *-* | *90.8* |
| **Technoleg Gwybodaeth a** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.5 | 38.1 | 45.6 | 6.8 | 0.0 | 100 |
| | *Cymru* | *0.4* | *0.3* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.3* | *0.4* | *0.9* | *6.3* | *36.6* | *40.7* | *13.6* | *0.3* | *-* | *91.2* |
| **Hanes** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 3.4 | 23.8 | 40.1 | 32.7 | 0.0 | 0.0 | 96.6 |
| | *Cymru* | *0.4* | *0.3* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.3* | *0.5* | *1.5* | *9.2* | *36.5* | *34.8* | *14.9* | *1.2* | *0.1* | *87.5* |
| **Daearyddiaeth** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.7 | 26.5 | 46.3 | 24.5 | 0.0 | 0.0 | 97.3 |
| | *Cymru* | *0.4* | *0.3* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.3* | *0.4* | *1.5* | *8.9* | *36.4* | *34.5* | *15.3* | *1.4* | *0.1* | *87.7* |
| **Celf a Dylunio** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 28.6 | 38.1 | 32.0 | 0.0 | 0.0 | 98.6 |
| | *Cymru* | *0.4* | *0.2* | *0.1* | *0.1* | *0.1* | *0.4* | *0.4* | *0.8* | *6.5* | *40.0* | *35.8* | *13.7* | *1.4* | *0.1* | *91.0* |
| **Cerddoriaeth** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.0 | 38.8 | 32.7 | 19.7 | 6.8 | 0.0 | 98.0 |
| | *Cymru* | *0.5* | *0.3* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.4* | *0.3* | *0.6* | *7.0* | *48.6* | *31.9* | *8.6* | *1.1* | *0.1* | *90.4* |
| **Addysg Gorfforol** | Ysgol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.0 | 28.6 | 34.7 | 22.4 | 12.2 | 0.0 | 98.0 |
| | *Cymru* | *0.5* | *0.4* | *0.1* | *0.1* | *0.2* | *0.2* | *0.3* | *0.8* | *8.0* | *47.2* | *31.7* | *9.6* | *0.9* | *-* | *89.4* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Pwnc Craidd ** | Ysgol | 91.2 | *Cymru* | *81.0* |

| | |
|---|---|
| ***Nodiadau***<br>*N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso*<br>*D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.*<br>*EP: Perfformiad Eithriadol*<br>*% yn ennill y lefel ddisgwyliedig (L5+)* | *NCO1 : Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol*<br>*NCO2 : Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol*<br>*NCO3 : Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol*<br>*** : Wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd* |

# Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a 5

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf** — **SSSP Dros Dro 2015**

**Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1)** — **Rhif ALI/Ysgol 681 / 4071**

**Disgyblion 15 oed**

**Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 :** **219**

**Canran y disgyblion 15 oed a:**

| | gofrestr-odd am o leiaf un cymhwys-ter | enillodd drothwy Lefel 1 | enillodd drothwy Lefel 2 | enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg | Dangos-ydd Pync-iau Craidd (2) | Sgôr bwyntiau gyfartalog ehan-gach fesul dis-gybl wedi'i chapio (3) | Sgôr bwynt-iau gyfartal-og eang am bob disgybl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol 2014/15 | 100 | 98 | 83 | 70 | 67 | 361 | 569 |
| Ardal ALI 2014/15 | 99 | 92 | 81 | 59 | 56 | 336 | 489 |
| Cymru 2014/15 | 99 | 94 | 83 | 58 | 54 | 342 | 525 |
| Ysgol 13/14/15 | 100 | 98 | 83 | 70 | 68 | 361 | 548 |
| Ysgol 12/13/14 | 100 | 98 | 81 | 68 | 67 | 358 | 525 |

**Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 :** **96**

**Canran y bechgyn 15 oed a:**

| | gofrestr-odd am o leiaf un cymhwys-ter | enillodd drothwy Lefel 1 | enillodd drothwy Lefel 2 | enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg | Dangos-ydd Pync-iau Craidd (2) | Sgôr bwyntiau gyfartalog ehan-gach fesul dis-gybl wedi'i chapio (3) | Sgôr bwynt-iau gyfartal-og eang am bob disgybl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol 2014/15 | 100 | 97 | 84 | 72 | 68 | 352 | 555 |
| Ardal ALI 2014/15 | 100 | 90 | 77 | 57 | 55 | 324 | 464 |
| Cymru 2014/15 | 99 | 93 | 80 | 54 | 51 | 331 | 500 |
| Ysgol 13/14/15 | 100 | 97 | 82 | 71 | 68 | 351 | 530 |
| Ysgol 12/13/14 | 100 | 98 | 79 | 67 | 66 | 348 | 504 |

**Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 :** **123**

**Canran y merched 15 oed a:**

| | gofrestr-odd am o leiaf un cymhwys-ter | enillodd drothwy Lefel 1 | enillodd drothwy Lefel 2 | enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg | Dangos-ydd Pync-iau Craidd (2) | Sgôr bwyntiau gyfartalog ehan-gach fesul dis-gybl wedi'i chapio (3) | Sgôr bwynt-iau gyfartal-og eang am bob disgybl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol 2014/15 | 100 | 98 | 82 | 68 | 66 | 367 | 581 |
| Ardal ALI 2014/15 | 99 | 94 | 85 | 61 | 58 | 348 | 515 |
| Cymru 2014/15 | 99 | 96 | 87 | 61 | 58 | 354 | 551 |
| Ysgol 13/14/15 | 100 | 98 | 84 | 69 | 68 | 368 | 561 |
| Ysgol 12/13/14 | 100 | 98 | 82 | 69 | 68 | 365 | 541 |

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgolion uwchradd prif ffrwd.

(6) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

.. Data ddim ar gael.

**Disgyblion 15 oed**

**Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 : 219**

**Canran y disgyblion 15 oed a:**

| | ennillodd A *-C mewn : | | | | | Pwyntiau cyfartalog fesul disgybl : | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Saesneg/ Cymraeg | Saesneg | Cymraeg (6) | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Saesneg/ Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
| Ysgol 2014/15 | 87 | 78 | 86 | 73 | 74 | 46 | 42 | 39 |
| Ardal ALI 2014/15 | 72 | 72 | 84 | 63 | 81 | 40 | 36 | 46 |
| Cymru 2014/15 | 69 | 68 | 75 | 64 | 83 | 39 | 37 | 48 |
| Ysgol 13/14/15 | 86 | 79 | 85 | 73 | 80 | 46 | 41 | 41 |
| Ysgol 12/13/14 | 84 | 78 | 83 | 71 | 83 | 46 | 41 | 43 |

**Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 : 96**

**Canran y bechgyn 15 oed a:**

| | ennillodd A *-C mewn : | | | | | Pwyntiau cyfartalog fesul disgybl : | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Saesneg/ Cymraeg | Saesneg | Cymraeg (6) | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Saesneg/ Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
| Ysgol 2014/15 | 80 | 71 | 78 | 76 | 73 | 44 | 42 | 38 |
| Ardal ALI 2014/15 | 66 | 65 | 75 | 64 | 80 | 37 | 36 | 45 |
| Cymru 2014/15 | 61 | 60 | 66 | 64 | 82 | 37 | 37 | 46 |
| Ysgol 13/14/15 | 80 | 72 | 78 | 75 | 81 | 44 | 41 | 41 |
| Ysgol 12/13/14 | 78 | 73 | 77 | 72 | 84 | 44 | 41 | 43 |

**Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015 : 123**

**Canran y merched 15 oed a:**

| | ennillodd A *-C mewn : | | | | | Pwyntiau cyfartalog fesul disgybl : | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Saesneg/ Cymraeg | Saesneg | Cymraeg (6) | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Saesneg/ Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
| Ysgol 2014/15 | 92 | 83 | 93 | 71 | 75 | 48 | 42 | 39 |
| Ardal ALI 2014/15 | 79 | 78 | 92 | 62 | 81 | 42 | 36 | 48 |
| Cymru 2014/15 | 78 | 77 | 83 | 64 | 85 | 42 | 37 | 49 |
| Ysgol 13/14/15 | 90 | 83 | 90 | 71 | 80 | 48 | 41 | 42 |
| Ysgol 12/13/14 | 89 | 82 | 89 | 71 | 83 | 47 | 41 | 44 |

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgollion uwchradd prif ffrwd.

(6) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw’r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

.. Data ddim ar gael.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

# SSSP Dros Dro 2015

**Math o Ysgol:** Comprehensive 11-18

**Rhif ALI/Ysgol** **681 / 4071**

**Iaith yr Ysgol:** Welsh medium

**Nifer o Unedau AAA/Dosbarthiadau Arbennig 2015:** 0

**Nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mlwyddyn 11 2015:** 219

**Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a hawl i gael prydau am ddim yn 13/14/15 (5) :** 8.9

**Canran y disgyblion 15 oed ar y gorestr AAA 2015:** 20.5

**Cynigir y Fagloriaeth Cymru:**

**Lefel o Fagloriaeth Cymru a gynigir:**

| Lefel uwch ar gyfer disgyblion ôl-16 | Lefel canolradd ar gyfer disgyblion ôl-16 | Lefel sylfaen ar gyfer disgyblion ôl-16 | Lefel canolradd ar gyfer disgyblion llai na 16 oed | Lefel sylfaen ar gyfer disgyblion llai na 16 oed |
|---|---|---|---|---|

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgollion uwchradd prif ffrwd.

(6) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

.. Data ddim ar gael.

## Disgyblion 15 oed

| | Canran y disgyblion 15 oed a: | | Canran y bechgyn 15 oed a: | | Canran y merched 15 oed a: | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig | heb ennill gym-hwyster cydna-byddedig | enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig | heb ennill gym-hwyster cydna-byddedig | enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig | heb ennill gym-hwyster cydna-byddedig |
| Ysgol 2014/15 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ardal ALI 2014/15 | 1 | 1.2 | 1 | 1.3 | 0 | 1.1 |
| Cymru 2014/15 | 1 | 1.3 | 1 | 1.6 | 0 | 1.0 |
| Ysgol 13/14/15 | 0 | 0.3 | 0 | 0.4 | 0 | 0.3 |
| Ysgol 12/13/14 | 0 | 0.5 | 0 | 0.7 | 0 | 0.3 |

## Disgyblion 17 oed

| | Nifer y disgyblion 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 152 | | Nifer y bechgyn 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 55 | | Nifer y maerched 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 97 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canran y disgyb-lion 17 oed a gof-restrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfar-tal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3 | Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed | Canran y disgyb-lion 17 oed a gof-restrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfar-tal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3 | Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed | Canran y disgyb-lion 17 oed a gof-restrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfar-tal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3 | Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed |
| Ysgol 2014/15 | 99 | 762 | 98 | 766 | 100 | 760 |
| Ardal ALI 2014/15 | 97 | 865 | 96 | 830 | 98 | 900 |
| Cymru 2014/15 | 97 | 787 | 96 | 736 | 98 | 832 |
| Ysgol 13/14/15 | 98 | 784 | 97 | 786 | 99 | 782 |
| Ysgol 12/13/14 | 98 | 800 | 97 | 798 | 98 | 801 |

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgollion uwchradd prif ffrwd.

(6) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw’r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

.. Data ddim ar gael.

# Cynnwys


Gair o Groeso ........ 2
Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion ........ 3
Manylion yr Ysgol ........ 4
Polisi Derbyn yr Ysgol ........ 5
Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol ........ 6
Bugeilio ........ 7
Diogelwch ........ 7
Cytundeb Ysgol / Cartref ........ 7
Datblygiad Ysbrydol, Moesol a Diwylliannol ........ 8
Gweithgareddau Allgyrsiol ........ 10
Polisi Codi Tal ........ 10
Chwaraeon / Cadw'n Iach ........ 11
Cwricwlwm ........ 12
Addysg Grefyddol / ABCh ........ 14
Addysg Rhyw ........ 15
Addysg Gysylltiedig â Gwaith ........ 16
Gweithgareddau Menter / Ystyried Achwynion ........ 17
Disgwyliadau Glantaf ........ 18
Disgyblaeth ........ 19
Gwaith Cartref ........ 20
Y Flwyddyn Ysgol / Presenoldeb ........ 22
Y Dydd Ysgol / Cinio Rhad / Niferoedd yn yr Ysgol ........ 23
Gwisg Ysgol ........ 24
Adrodd Nôl i Rieni ........ 26
Polisi Sefyll Arholiadau Allanol ........ 27
Trefniadau Anghenion Addysgol Arbennig ........ 28
Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 ........ 30
Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (SSSP) ........ 32